# Para-athletau: Gwaywffon

Grŵp oedran y gweithgaredd: 5 - 7

Gweithgaredd:

## Taflu roced

### Sut mae chwarae:

- Gan ddefnyddio cymysgedd o gylchoedd a marcwyr bach a mawr, rhowch ‘blanedau’ mewn llinellau.
- Bydd y disgyblion yn sefyll mewn rhes, yn dal y waywffon sbwng yn y canol ac yn mynd a’u braich yn ôl.
- Bydd y disgyblion yn troi’r waywffon ac yn ei gwthio ymlaen ac i fyny, yn anelu i fyny ac yn saethu at y sêr.
- Bydd y disgyblion yn ei thaflu hi eto ond yn ceisio cael y waywffon dros y planedau (cylchoedd).
- Defnyddiwch y cylchoedd llai neu’r marcwyr i weld a yw’r disgyblion yn gallu cael y waywffon i lanio yn, neu o gwmpas, y cylch neu’r marciwr.



### Offer:

- Gwaywffon neu roced sbwng
- Bagiau ffa
- Conau neu farcwyr lliw/siâp gwahanol
- Cylchoedd (planedau)
- Ardal chwarae fawr

# Defnyddio STEP:

| | Haws | Anoddach |
|---|---|---|
| **Gofod** *(Space)* | Cynyddu maint y cylch/ardal. | Lleihau maint y cylch/ardal. |
| **Tasg** *(Task)* | Lleihau nifer y marcwyr/cylchoedd. | Cynyddu nifer y marcwyr/cylchoedd. |
| **Offer** *(Equipment)* | - Symud y cylchoedd yn nes at y llinell daflu.<br>- Defnyddio bag ffa yn lle gwayw-ffon. | - Defnyddio roced yn lle gwaywffon.<br>- Rhoi cynnig arni wrth eistedd. |
| **Pobl** *(People)* | Rhoi gwirfoddolwr i helpu. | Mae'n rhaid i bob disgybl wneud hyn ddwywaith. |



## Ystyriaethau penodol:

**Disgyblion sy'n ddall ac yn rhannol ddall:**

- Defnyddiwch offer hawdd ei weld.
- Rhowch gyfaill neu dywysydd i helpu'r disgyblion.

**Disgyblion ag anableddau dysgu:**

- Cyflwynwch un blaned / ardal ar y tro.
- Dylech eu hannog a'u hatgoffa yn ystod y gweithgaredd.
- Rhowch y disgyblion hyn gyda rhywun sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n gyfforddus a rhywun sy'n gallu eu helpu i gymryd rhan yn y dasg a chanolbwyntio arni.

**Disgyblion byddar neu drwm eu clyw:**

- Rhowch arddangosiad ymarferol cyn dechrau'r gweithgaredd a phan fydd y cyfarwyddiadau'n newid.
- Defnyddiwch arwyddion gweledol neu chwifio baner neu fib i ddechrau a gorffen y gweithgaredd.

**Disgyblion sydd â nam corfforol:**

- Gwnewch yn siŵr bod digon o le rhwng y timau ac ar y cwrs.
- Dylech rymuso'r disgyblion i reoli cyflymder y gweithgaredd drwy gymryd yr awenau ac arwain.
- Gadewch i'r disgyblion eistedd.

Nid yw'r holl atebion ar gael yn y canllawiau uchod, ac mae'n bosibl nad yw rhai o ofynion penodol y disgyblion yn cael sylw. Rydyn ni'n eich annog i ymgysylltu â'r holl ddisgyblion, sylwi ar eu hanghenion, a chyfathrebu'n effeithiol, gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn o ddarparu cymorth wedi'i deilwra pan fydd angen.

STEP © 2002,
Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid. Cedwir pob hawl.

BBC TEACH · activity alliance disability inclusion sport · YOUTH SPORT TRUST